**Y Strategaeth Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol: Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014**

**Y Strategaeth Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol:**

**Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014**

Cyflwynwyd i'r Senedd gan

Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref

ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Mawrth 2015

Cm 9049

© Hawlfraint y Goron 2015 Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded y Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch ar y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Lle nodwyd gwybodaeth hawlfraint unrhyw trydydd parti, bydd angen cael caniatâd deiliaid yr hawlfraint o dan sylw. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael trwy fynd i www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn:
public.enquiries@homeoffice.gsi.gov.uk

ISBN Print  9781474116893

ISBN y We 9781474116909

ID 17031504 48576 03/15

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibrau wedi eu hailgylchu. Argraffwyd yn y DU gan Grŵp Williams Lea ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

**Cynnwys**

**Y Strategaeth Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol**

**Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014**


| | |
|---|---|
| Rhagair | 5 |
| Rhan 1:  Cyflwyniad | 6 |
| Y bygythiad | 6 |
| Rhan 2: Ein hymateb | 9 |
| Erlid | 9 |
| Atal | 19 |
| Amddiffyn | 21 |
| Paratoi | 24 |
| Casgliad | 26 |

**Rhagair yr Ysgrifennydd Cartref**

Dangosodd digwyddiadau yn 2014 yn rhy glir o lawer y difrod y mae Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol yn ei achosi, gan fygwth diogelwch ein cenedl ac effeithio ar bobl, cymunedau a busnesau ledled y DU bob dydd.

Mae'r bygythiadau sy'n ein hwynebu'n amrywiol, yn gymhleth ac yn esblygu'n gyflym. Mae achosion blaenllaw diweddar yn Rotherham, ac mewn llefydd eraill, wedi dangos maint y broblem o ran pobl yn cam-fanteisio'n rhywiol ar blant yn y DU, ac rydyn ni'n gwybod erbyn hyn bod caethwasiaeth fodern yn fwy cyffredin nag yr oeddem wedi meddwl. Y llynedd, gwelwyd maleiswedd bancio yn lledu gan arwain at golledion gwerth cannoedd o filiynau o bunnoedd, a defnydd cynyddol o seiberdechnegau gan droseddwyr cyfundrefnol i gyflawni troseddau twyll a masnachu cyffuriau ac arfau tanio ar y rhyngrwyd.

Mae'r bygythiadau hyn yn codi sialensiau sylweddol, a dyna pam aeth y Llywodraeth hon ati i lansio'r Strategaeth Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol a sefydlu'r Asiantaeth Troseddu Genedlaethol yn Hydref 2013. Roedd hyn yn gam pwysig yn ein brwydr yn erbyn Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol.

Fy mlaenoriaeth i o hyd yw amharu ar waith troseddwyr difrifol a chyfundrefnol a'u herlyn, felly rhaid i ni sicrhau bod gan ein hasiantaethau gorfodi'r gyfraith a chudd-wybodaeth yr holl bwerau a galluoedd sydd eu hangen arnynt o hyd. Rydyn ni wedi cyflwyno deddfwriaeth newydd bwysig trwy Ddeddf Troseddau Difrifol 2015, ac wedi cryfhau ein dulliau o gydweithredu ar lefel leol, rhanbarthol ac â'r sector preifat. Rydyn ni wedi buddsoddi mewn gwell galluoedd, gan gynnwys ym maes troseddau seiber ac mewn Unedau Troseddu Cyfundrefnol Rhanbarthol, ac wedi ymrwymo £10 miliwn ychwanegol i daclo cam-fanteisio ar blant yn rhywiol ar lein. Rydyn ni'n rhoi rhaglenni gwaith newydd pwysig ar waith hefyd er mwyn atal troseddau difrifol a chyfundrefnol, amddiffyn rhagddynt a lleihau eu heffaith.

Bydd angen i'r Strategaeth Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol addasu yn ôl natur newidiol y bygythiad yn 2015, ond rwy'n hyderus ein bod ni ar y trywydd iawn.

Theresa May AS

Yr Ysgrifennydd Cartref

**RHAN 1: CYFLWYNIAD**

1.1 Yn Hydref 2013 cyhoeddodd y Llywodraeth Strategaeth Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol newydd [1] i gyd-fydd â lansiad yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol (NCA). Ymrwymodd y Llywodraeth i ddarparu diweddariad blynyddol ar gynnydd wrth gyflawni'r Strategaeth: mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 7 Hydref 2013 a 31 Rhagfyr 2014.

1.2 Er bod diogelwch gwladol yn fater cadwedig, mae troseddau a phlismona, a charchardai a phrofiannaeth, wedi eu datganoli, a Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon sy'n gyfrifol am y rhain. Rydyn ni'n dal i gydweithredu â phob Gweinyddiaeth Ddatganoledig er mwyn ceisio atal troseddau difrifol a chyfundrefnol.

**Y Bygythiad**

1.3 Mae troseddau difrifol a chyfundrefnol yn fygythiad i'n diogelwch gwladol. [2] Mae'n effeithio ar bobl, cymunedau a busnesau ledled y DU, ac yn parhau i achosi marwolaethau, niwed economaidd a chymdeithasol sylweddol, a llawer o bryder ymysg y cyhoedd. Yn ôl amcangyfrifon asiantaethau gorfodi'r DU, ar 31 Rhagfyr 2014, roedd rhyw 5,800 o grwpiau o droseddwyr cyfundrefnol - sy'n cynnwys tua 40,600 o unigolion - yn achosi niwed i'r DU. Amcangyfrifir bod troseddau difrifol a chyfundrefnol yn costio o leiaf £24 biliwn y flwyddyn i'r DU.[3]

1.4 Nododd y strategaeth yn glir bod rhaid i'n hymateb i droseddau difrifol a chyfundrefnol yn y DU gael ei fwydo gan ddealltwriaeth awdurdodol o'r bygythiad. Ym mis Mai 2014, cyhoeddodd yr NCA yr Asesiad Strategol Gwladol cyntaf[4], ar ran asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn y DU, gan ddarparu'r darlun mwyaf cyflawn eto o'r bygythiadau sy'n wynebu'r DU o du troseddau difrifol a chyfundrefnol. Mae'r rhain yn cynnwys: seiberdroseddau; troseddau economaidd a gwyngalchu arian; llygredigaeth; cam-fanteisio ar blant yn rhywiol; troseddau mewnfudo; masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern; masnachu cyffuriau; troseddu gan ddefnyddio arfau tanio; a dwyn. Cyhoeddir yr Asesiad newydd ddiwedd gwanwyn 2015.

1.5 Mae seiberdroseddau yn rheng flaen y bygythiad i ddiogelwch gwladol y DU.[2] Mae ymosodiadau maleiswedd, meddalwedd wystlo, a thargedu a chyfaddawdu systemau rhwydwaith y DU, ac yn enwedig gan droseddwyr tramor, yn fygythiad cynyddol. Mae troseddwyr cyfundrefnol yn defnyddio seiberdechnegau i gyflawni troseddau twyll yn erbyn adrannau'r llywodraeth, busnesau a'r cyhoedd.

---

[1] Llywodraeth Ei Mawrhydi (2013) *Strategaeth Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol.* Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/ attachment_data/file/248645/Serious_and_Organised_Crime_Strategy.pdf

[2] Llywodraeth Ei Mawrhydi (2010) *A Strong Britain in an Age of Uncertainty: The National Security Strategy*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/ uploads/system/uploads/attachment_data/ file/61936/national-security-strategy.pdf

[3] Y Swyddfa Gartref (2013) *Understanding Organised Crime: Estimating the Scale and the Social and Economic Costs.* Ar gael yn: https://www.gov. uk/government/publications/understandingorganised-crime-estimating-the-scale-and-thesocial-and-economic-costs

[4] Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (2014) *National Strategic Assessment of Serious And Organised Crime 2014.* Ar gael yn: http://www. nationalcrimeagency.gov.uk/publications/207nca-strategic-assessment-of-serious-andorganised-crime/file

Mae arfau tanio, cyffuriau a nwyddau anghyfreithlon eraill yn cael eu masnachu ar y rhyngrwyd, gan gynnwys y 'we dywyll', gan ddefnyddio arian treigl rhithiol. Rydyn ni'n gweld troseddau seiber 'fel gwasanaeth' yn ehangu, gyda rhai enghreifftiau o grwpiau troseddu cyfundrefnol yn cyflogi arbenigwyr seiber.

1.6 Mae cam-drin plant yn rhywiol yn drosedd ffiaidd. Mae hyn yn gallu digwydd mewn sawl ffurf, gan gynnwys camdriniaeth rywiol o fewn teuluoedd, cam-fanteisio gan unigolion neu grwpiau, neu gamdriniaeth ar lein, fel 'meithrin perthnasau amhriodol' ar lein a lledaenu delweddau anweddus o blant. Er ei bod yn amhosibl bod yn bendant am nifer y dioddefwyr, yn ôl yr NSPCC, mae rhyw 1 ym mhob 20 o blant y DU wedi profi rhyw fath o weithred rywiol dan orfodaeth erbyn iddynt droi'n 16 oed[5]. Mae achosion sydd wedi denu sylw mawr yn ddiweddar, gan gynnwys y gangiau a fu'n camfanteisio ar blant yn rhywiol yn Rotherham, wedi arwain at fwy o bobl yn rhoi gwybod am droseddau o'r fath ac wedi codi ymwybyddiaeth am y math hwn o drosedd sydd wedi cael ei anwybyddu'n rhy aml yn y gorffennol. Cafodd yr NCA 12,505 o atgyfeiriadau gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Plant Coll a Phlant sydd wedi Dioddef Camfanteisio yn ystod eu 12 mis cyntaf, o'i gymharu â 9,855 yn 2012, sef cynnydd o bron i 27 y cant. Mae'r NCA wedi amcangyfrif bod cymaint â 50,000 o bobl yn y DU yn gysylltiedig â lawrlwytho ac edrych ar ddelweddau anweddus ar lein.

1.7 Mae hi bron a bod yn sicr bod cannoedd o biliynau o bunnoedd o arian troseddol rhyngwladol yn cael ei wyngalchu trwy fanciau'r DU a'u his-gwmnïau bob blwyddyn.[6] Mae sectorau eraill yn agored i niwed hefyd. Mae o leiaf £1.5 biliwn yn cael ei wyngalchu bob blwyddyn trwy fusnesau gwasanaethau ariannol yn unig, ac er nad oes gennym ddarlun cystal o'r hyn sy'n digwydd o fewn y sector gwasanaethau proffesiynol, mae'r sector hwnnw'n chwarae rôl sylweddol o ran gwyngalchu arian hefyd. Mae camfanteisio troseddol ar lywodraethau llygredig ac ansad dramor yn gallu cael effaith uniongyrchol ar ddiogelwch gwladol y DU.

1.8 Mae'r NCA yn ymwybodol o 2,744 o bobl a allai fod wedi dioddef wrth law masnachwyr pobl yn y DU yn 2013, sef cynnydd o 22 y cant o'i gymharu â 2012.[7] Cafodd nifer y dioddefwyr cudd ei amlygu trwy waith diweddar a gyflawnwyd gan y Swyddfa Gartref. Gan ddefnyddio data a gasglwyd gan yr NCA a dulliau ystadegol sefydledig, mae Prif Ymgynghorydd Gwyddonol y Swyddfa Gartref wedi amcangyfrif ei bod hi'n bosibl y gallai fod cymaint â rhwng 10,000 a 13,000 o ddioddefwyr caethwasiaeth fodern yn y DU yn 2013.[8] Mae'r mwyafrif o fewnfudwyr anghyfreithlon yn dibynnu ar wasanaethau grwpiau troseddu cyfundrefnol ar ryw bwynt ar eu siwrnai.

---

[5] NSPCC (2011) *Child Abuse and Neglect in the UK Today*. Ar gael yn: http://www.nspcc.org.uk/ preventing-abuse/research-and-resources/childabuse-and-neglect-in-the-uk-today

[6] Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (2014) *National Strategic Assessment of Serious And Organised Crime 2014*. Ar gael yn: http://www. nationalcrimeagency.gov.uk/publications/207nca-strategic-assessment-of-serious-andorganised-crime/file

[7] Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (2014) *NCA Strategic Assessment: The Nature and Scale of Human Trafficking in 2013*. Ar gael yn: http://www. nationalcrimeagency.gov.uk/publications/399nca-strategic-assessment-the-nature-and-scaleof-human-trafficking-in-2013/file

[8] Y Swyddfa Gartref (2014) *Modern Slavery: An Application of Multiple Systems Estimation*. Ar gael yn: https:// www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/ attachment_data/file/381389/Modern_Slavery_an_ application_of_MSE.PDF

1.9 Mae'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon yng Nghymru a Lloegr wedi disgyn dros y deng mlynedd diwethaf, gydag 8.8 y cant o oedolion yn cymryd cyffur anghyfreithlon yn 2013/14.[9] Ond mae costau cymdeithasol ac economaidd defnyddio cyffuriau yn dal i fod yn uchel, ac amcangyfrifir eu bod tua £10.7 biliwn y flwyddyn.[10] Yn 2013, cofnodwyd 1,957 o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon.[11] Mae nifer y sylweddau seicoweithredol newydd a ddatgelwyd yn y DU wedi cynyddu.[12] Mae faint o gocên sy'n cyrraedd strydoedd y DU yn dal i fod yn uchel, ac mae'r cyflenwad o heroin o Affghanistan yn debygol o gynyddu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.[13]

1.10 Bydd twf technoleg, ei hamrywiad a'i defnydd yn ei gwneud yn gynyddol heriol i'r cyrff sy'n gorfodi'r gyfraith gynnal eu mantais dros grwpiau troseddu difrifol a chyfundrefnol yn y dyfodol. Bydd y bygythiad yn parhau i fod yn un rhyngwladol.

[9] Y Swyddfa Gartref (2014) *Drug misuse: Findings from the 2013/14 Crime Survey for England and Wales*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/ statistics/drug-misuse-findings-from-the-2013-to2014-csew

[10] Y Swyddfa Gartref (2013) *Understanding Organised Crime: Estimating the Scale and the Social and Economic Costs*. Ar gael yn: https://www.gov. uk/government/publications/understandingorganised-crime-estimating-the-scale-and-thesocial-and-economic-costs

[11] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2014) *Deaths Related to Drug Poisoning in England and Wales, 2013*. Ar gael yn: http://www.ons.gov.uk/ons/ rel/subnational-health3/deaths-related-to-drugpoisoning/england-and-wales---2013/index.html

[12] Y Swyddfa Gartref (2014) *New Psychoactive Substances in England: A Review of the Evidence*. Ar gael yn: https://www. gov.uk/government/uploads/system/ uploads/attachment_data/file/368587/ NPSevidenceReview.pdf

[13] Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (2014) *National Strategic Assessment of Serious and Organised Crime 2014*. Ar gael yn: http://www. nationalcrimeagency.gov.uk/publications/207nca-strategic-assessment-of-serious-andorganised-crime/file

**RHAN 2: EIN HYMATEB**

2.1 Nod y Strategaeth Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol yn 2013 oedd cwtogi'n sylweddol ar nifer y Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol sy'n effeithio ar y DU a'i buddiannau. Defnyddiodd y Strategaeth ddull newydd o fynd ati mewn perthynas â'r bygythiad o du troseddau cyfundrefnol, gan greu meysydd gwaith newydd (Atal a Pharatoi), ac ailddiffinio ein gweithgareddau o dan y pennawd Amddiffyn. Cafodd y Strategaeth ei modelu ar sail ein dulliau llwyddiannus o fynd ati i atal terfysgaeth, ac mae'n seiliedig ar:

- **Erlid:** sef erlyn ac amharu ar bobl sy'n cymryd rhan mewn troseddu difrifol a chyfundrefnol
- **Atal:** sef atal pobl rhag dod cymryd rhan mewn troseddu difrifol a chyfundrefnol.
- **Amddiffyn:** sef gwella'r amddiffyniad yn erbyn troseddau difrifol a chyfundrefnol.
- **Paratoi:** sef lleihau effaith y troseddau hyn lle maent yn digwydd.

2.2 Nododd y Strategaeth lefel uchel o amcanion ym mhob un o'r meysydd hyn, ac mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r camau rydyn ni wedi eu cymryd i'w cyflawni, er mwyn lleihau'r bygythiadau rydyn ni'n eu hwynebu a chryfhau'r mannau gwan. Rydyn ni'n fodlon bod ein dull o fynd ati yn briodol ac yn effeithiol. Ond mae angen iddo esblygu wrth i'r bygythiadau newid.

**Erlid**

2.3 Dal ati'n ddi-baid i amharu ar droseddwyr difrifol a chyfundrefnol yw'n prif flaenoriaeth o hyd. Mae'r Strategaeth wedi ein hymrwymo:

- i sefydlu cyrff cadarn, a chydweithredu'n effeithiol er mwyn arwain y gwaith yn erbyn troseddau difrifol a chyfundrefnol;
- i ddatblygu ein gallu i ddatgelu, ymchwilio, erlyn ac amharu ar droseddau difrifol a chyfundrefnol;
- i ymosod ar gyllid troseddol gan ei gwneud hi'n anos symud, cuddio a defnyddio elw o droseddu;
- i sicrhau bod pwerau cyfreithiol effeithiol ar gael, a'u bod yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â bygythiad troseddau difrifol a chyfundrefnol; ac
- yn rhyngwladol, i wella ein galluoedd ein hunain a'n cydweithrediad ag eraill er mwyn ein galluogi i fynd i'r afael â rhwydweithiau troseddu cyfundrefnol yn well.

**Sefydliadau a phartneriaethau effeithiol**

2.4 Yn ystod ei 12 mis cyntaf, cydweithiodd yr NCA yn agos â heddluoedd, Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (ROCUs), ac â phartneriaid cenedlaethol a rhyngwladol i amharu[14] ar grwpiau troseddu cyfundrefnol, gan arestio 2,048 o bobl yn y DU ac 1,181 dramor, gan arwain at 415 o gollfarnau. Llwyddodd cyrchoedd yr NCA i atafaelu dros 200 tunnell o gyffuriau anghyfreithlon, a mwy na 700 o arfau tanio (gan gynnwys 165 o ddrylliau). Yn unol â'r pwerau statudol cadarnach,

[14] Mae amhariad yn deillio o ymyrraeth, a chyflawnir hyn pan nad yw unigolyn neu grŵp yn gallu gweithredu ar ei lefel arferol am gyfnod, neu lle ceir effaith ar fan gwan.

mae'r NCA wedi cyflwyno tasgau cenedlaethol a mesurau cydlynu newydd er mwyn cysoni'r ymateb o ran cydweithio i orfodi'r gyfraith yn erbyn yr unigolion a'r grwpiau mwyaf peryglus. Disgrifir ein gwaith i ddatblygu galluoedd y rhwydwaith ROCU ym mharagraff 2.7. Mae'r Ymgyrch NOTARISE (gweler paragraff 2.24) yn dyst i sut mae'r NCA yn gallu cydlynu ymateb cenedlaethol at fygythiad difrifol, gan gynnwys gwaith uniongyrchol gyda phob un o'r 45 heddlu ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gellir cael rhagor o wybodaeth am rôl, strwythur a pherfformiad yr NCA yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2013/14.[15]

2.5 Nid mater i asiantaethau gorfodi'r gyfraith ar lefel genedlaethol a heddluoedd rhanbarthol yn unig yw mynd i'r afael â throseddau difrifol a chyfundrefnol. Mae ymateb effeithiol yn dibynnu hefyd ar gydweithredu agosach o lawer rhwng sefydliadau gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau cudd-wybodaeth, adrannau'r llywodraeth, rheoleiddwyr, awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a byd diwydiant. Cynigiodd y Strategaeth creu partneriaethau newydd amlasiantaeth trwy rannu'r un Proffil Lleol o Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol.[16]

2.6 Mae Proffiliau Lleol yn bodoli yn ardaloedd 11 o heddluoedd Cymru a Lloegr, ac mae 27 o heddluoedd pellach yn y broses o'u paratoi. Mae tua hanner yr holl heddluoedd (23) yng Nghymru a Lloegr wedi sefydlu partneriaeth amlasiantaeth o ran troseddau difrifol a chyfundrefnol, ac mae rhagor yn bwriadu gwneud hynny ar ôl cwblhau eu Proffiliau. Mae GAIN (Rhwydwaith Asiantaethau Cudd-wybodaeth y Llywodraeth) yn meithrin cysylltiadau rhwng y partneriaid ac yn cydlynu'r gwaith o gasglu cudd-wybodaeth ar y bygythiadau hynny a amlygwyd yn y Proffiliau Lleol.

Mae pedwar heddlu ar flaen y gad o ran gwaith amlasiantaeth sef - Sir Derby, Dorset, Manceinion Fwyaf a Glannau Mersey; mae pob un o'r rhain wedi sefydlu Proffiliau Lleol, partneriaethau lleol a rhaglenni sy'n cwmpasu holl feysydd y Strategaeth Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol (sef Erlid, Atal, Amddiffyn a Pharatoi).

**Galluoedd cryfach**

2.7 Mae ROCU yn helpu eu heddluoedd lleol trwy ddarparu galluoedd ymchwiliol a chudd-wybodaeth arbenigol, gan gynnwys y gallu i arwain ymchwiliadau i grwpiau troseddu arbenigol sy'n croesi ffiniau heddluoedd. Maen nhw'n cydweithio'n agos â'r NCA hefyd er mwyn cynnal yr ymateb cenedlaethol i Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol, ac yn darparu rhyngwyneb hanfodol rhwng yr NCA a phrif ffrwd yr heddlu. Ers 2013, rydyn ni wedi darparu £65 miliwn i sefydlu 12 o alluoedd craidd ar draws y ROCU, gan gyflawni ymrwymiad y Strategaeth i wireddu "newid sylweddol" erbyn diwedd 2014. Mae'r galluoedd hyn yn cynnwys casglu a dadansoddi cudd-wybodaeth, ymchwilio i dwyll, amddiffyn tystion a chreu timau adfer asedau sy'n defnyddio gorchmynion fforffedu ac atafaelu er mwyn adfer elw troseddau. Mae gan bob ROCU unedau cudd-wybodaeth mewn carchardai, cydlynwyr GAIN ac Unedau Cudd-wybodaeth Rhanbarthol, gan gynnwys Unedau Cyfrinachol, er mwyn hwyluso'r gwaith o gyfnewid cudd-wybodaeth sensitif. Caiff galluoedd y ROCU eu cyfoethogi ymhellach yn 2015.

---

[15] Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (2014) *Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2013 i 2014*. Ar gael yn: https://www. gov.uk/government/ uploads/system/uploads/ attachment_data/file/380378/NCA_Annual_ Report___Accounts_2013-14_v1.0__web_.pdf

[16] Y Swyddfa Gartref (2014) *Serious And Organised Crime Profiles: A Guide*. Ar gael yn: https://www. gov.uk/government/publications/serious-andorganised-crime-local-profiles

2.8 Yn 2014/15, dyrannwyd £23.5 miliwn o'r Rhaglen Seiberddiogelwch Genedlaethol i'r Swyddfa Gartref mewn ymdrech i fynd i'r afael â seiberdroseddu, er mwyn bodloni amcan cyntaf y Strategaeth Seiberddiogelwch Genedlaethol, sef gwneud y DU yn un o'r llefydd mwyaf diogel yn y byd i wneud busnes ar lein. Rydyn ni wedi sefydlu Uned Seiberdroseddau Genedlaethol (NCCU) yn yr NCA, ac wedi sefydlu timau seiber ym mhob un o'r naw ROCU yng Nghymru a Lloegr. Ar 31 Rhagfyr 2014, roedd 30 o ymgyrchoedd domestig a rhyngwladol ar droed gan NCCU gyda'r nod o amharu ar seiberdroseddu difrifol, gyda'r ROCUs yn cyflawni 85 o ymgyrchoedd pellach.

Mae Coleg yr Heddlu yn gweithio gyda heddluoedd a'r NCA i hyfforddi miloedd o swyddogion heddlu. Mae gwaith ar droed i ddiffinio, datblygu a gweithredu'r galluoedd ymchwilio a dadansoddi digidol sydd eu hangen ar yr heddlu i fynd i'r afael â phob math o droseddau a therfysgaeth sy'n gadael ôl digidol.

2.9 Pasiwyd Deddf Cadw Data a Phwerau Ymchwilio (DRIPA) 2014 ym mis Gorffennaf 2014. Mae hyn yn sicrhau bod data cyfathrebu - sy'n cael ei ddefnyddio mewn tua 95 y cant o'r achosion sy'n cael eu trin gan Adran Troseddau Cyfundrefnol Gwasanaeth Erlyn y Goron - yn parhau i fod ar gael i'n hasiantaethau gorfodi'r gyfraith a chudd-wybodaeth os oes angen. Nid yw'r ddeddf yn darparu unrhyw bwerau, hawliau mynediad na rhwymedigaethau newydd. Mae darpariaethau yn Neddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn darparu rhai galluoedd newydd pwysig o ran data. Ond nid yw DRIPA na'r Ddeddf ddiweddarach yn mynd i'r afael â galluoedd ehangach yr heddlu a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth i gyrchu data cyfathrebu. Dyma'r maes yr oedd y Bil Data Cyfathrebu Drafft yn ymdrechu i fynd i'r afael ag ef, ond ni chafwyd cytundeb o fewn y glymblaid, ac felly ni chafwyd mwyafrif i fynd â'r Bil trwy'r Senedd.

2.10 Yn dilyn penderfyniad y Gyd-Ganolfan Dadansoddi Terfysgaeth i gynyddu lefel y bygythiad o du terfysgaeth ryngwladol yn y DU i DDIFRIFOL yn Awst 2014, dewisodd yr Ysgrifennydd Cartref ohirio'r adolygiad o blismona gwrthderfysgaeth. Sefydlwyd rhaglen o waith blaenoriaeth, dan arweiniad swyddogion uwch yr heddlu a'r NCA, er mwyn sicrhau mwy o gydweithio rhwng yr heddlu ac asiantaethau sy'n gweithio ym maes gwrthderfysgaeth ac atal troseddau difrifol a chyfundrefnol, gyda phwyslais ar weithgarwch ar ffiniau'r DU, mewn carchardai ac ar alluoedd seiber a gwyngalchu arian.

**Taclo arian o droseddu**

2.11 Roedd ei gwneud hi'n anos symud, gwyngalchu a defnyddio elw o droseddu, a chryfhau ein gallu i adfer asedau troseddol, yn rhan allweddol o'r Strategaeth a gymeradwywyd yn 2013. Yn 2013/14, cafodd gwerth £190 miliwn o asedau eu hadfer gan droseddwyr, sef cynnydd o £6.82 miliwn ers 2012/13. Rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2014, mae gwerth £891 miliwn wedi cael eu hatafaelu gan droseddwyr, a dychwelwyd £110 miliwn i'r dioddefwyr. Mae cannoedd o filiynau yn rhagor wedi cael eu rhewi a'u gosod y tu hwnt i afael y troseddwyr.

2.12 Rydyn ni wedi datblygu cynllun newydd traws-lywodraethol i wella'n gwaith ym maes arian troseddol. Y nod yw adfer asedau mewn ffordd fwy effeithlon, a mynd i'r afael â'r stoc o orchmynion atafaelu sydd heb eu cyflawni (sef gwerth cyfanswm o ryw £1.5 biliwn ar hyn o bryd). Mae hyn yn cynnwys cydweithio agosach o lawer â'r sector ariannol, gan gynnwys rhoi cynllun peilot ar waith lle mae gwybodaeth am orchmynion atafaelu sydd heb eu gorfodi yn cael ei rhannu â banciau'r DU. Arweiniodd yr NCA brosiect amlasiantaeth i osod ffocws yr ymdrechion ymarferol ar y gorchmynion

na orfodwyd sydd â'r flaenoriaeth uchaf, ac sy'n gysylltiedig â'r troseddwyr mwyaf difrifol. Gorfodwyd gwerth £40 miliwn yn erbyn y gorchmynion hyn yn 2014, o'i gymharu â rhyw £9 miliwn yn 2013. Crëwyd naw o Dimau Gorfodi Atafaelu Asedau newydd yn y ROCU. Yn ystod eu chwe mis cyntaf, mae'r rhain wedi adfer £3 miliwn gan droseddwyr. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) wedi rhoi rhwydwaith arbenigol newydd o Ymgynghorwyr Adfer Asedau ar waith dramor (yn Sbaen, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, a rhanbarthau'r Caribî ac Ewrop) er mwyn gwella'r prosesau ar gyfer adfer asedau anghyfreithiol.

2.13 Yn Ebrill 2014, cytunodd yr Ysgrifennydd Cartref - ynghyd â Llywodraethwr Banc Lloegr, Cadeirydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) a Phrif Weithredwyr o'r diwydiant gwasanaethau ariannol - i sefydlu Fforwm Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol newydd ar gyfer y Sector Ariannol. Mae hyn yn arwain at gydweithredu ymarferol a rhannu gwybodaeth yn well rhwng y sector ariannol, sefydliadau gorfodi'r gyfraith a'r llywodraeth mewn ymdrech i fynd i'r afael â gwyngalchu arian, a gwella'r dulliau o rannu gwybodaeth am drafodion ariannol amheus. Yn Chwefror 2015, sefydlwyd cynllun peilot Cyd-dasglu Cudd-wybodaeth ar Wyngalchu Arian (JMLIT) trwy'r Fforwm er mwyn helpu i ddatgelu, ymchwilio ac amharu ar wyngalchwyr arian a throseddwyr ariannol eraill. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo hefyd i adolygu'r drefn Adrodd am Weithgarwch Amheus (SAR) er mwyn sicrhau ei fod yn atal ac yn amharu'n effeithiol ar symudiad arian anghyfreithlon trwy'r sectorau ariannol a sectorau eraill a reoleiddir.

**Pwerau cyfreithiol newydd**

2.14 Mae Deddf Troseddau Difrifol 2015[17] yn cryfhau ein pwerau i adfer elw troseddau, trwy ei gwneud yn anos i droseddwyr gelu a symud eu hasedau, lleihau'r amser a ganiateir i dalu gorchmynion atafaelu, a chynyddu'r dedfrydau o garchar a roddir am fethu â'u talu. Mae trosedd newydd o gymryd rhan mewn grŵp troseddu cyfundrefnol yn sicrhau ein bod ni'n gallu erlyn pob math o bobl sy'n cymryd rhan mewn troseddu difrifol yn effeithiol, gan gynnwys y rhai sy'n darparu gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau nad ydynt yn broffesiynol sy'n cynorthwyo mentrau troseddol. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau newydd i'r NCA a'r heddlu atafael a difa asiantau torri cyffuriau. Mae'n cryfhau Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990 hefyd mewn perthynas â seiberdroseddau, a hynny'n benodol er mwyn sicrhau bod dedfrydau am ymosodiadau ar systemau cyfrifiadur yn llwyr adlewyrchu'r difrod y maent yn eu hachosi. Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 3 Mawrth 2015.

**Galluoedd a chydweithredu rhyngwladol**

2.15 Mae pob un o'r bygythiadau mwyaf difrifol o ran troseddau rydym yn eu hwynebu yn rhai rhyngwladol. Rydyn ni wedi ehangu rhwydweithiau tramor y DU, sy'n cynnwys swyddogion yr NCA, swyddogion cyswllt troseddau ariannol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM), swyddogion cyswllt risg a meysydd awyr, ymgynghorwyr cyfiawnder troseddol y CPS ac ymgynghorwyr adfer asedau, yn ogystal â staff diplomataidd a phersonél o'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol. Yn benodol, rydyn ni wedi gwella ein gallu i fynd i'r afael â throseddau cyfundrefnol sy'n ymwneud â mewnfudiad,

[17] Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.gov.uk/ government/collections/serious-crime-bill

seiberdroseddau, troseddau ariannol a cham-fanteisio ar blant yn rhywiol trwy'r NCA newydd a thrwy waith arbenigol y CPS mewn nifer o leoliadau.

2.16 Rydyn ni'n cyflawni amrywiaeth eang o raglenni ar draws llywodraethau, gan gynnwys trwy'r Gronfa Gwrthdaro, Sefydlogrwydd a Diogelwch - i ategu ein galluoedd gweithredol a'n gwaith achos mewn gwledydd blaenoriaeth dramor, ac i helpu i feithrin y capasiti o ran gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol yn lleol. Mae hyn yn cynnwys mentrau yn Asia, y Dwyrain Canol, Affrica, y Caribï a De America, lle ystyrir yn aml fod y DU yn bartner allweddol o ran diogelwch. Yn 2014, er enghraifft:

- cynhaliwyd rhaglen bwysig o gydweithredu yn Affghanistan i amharu ar rwydweithiau troseddol sydd â'u bryd ar fasnachu cyffuriau yn y DU, gyda swyddogion yr NCA yn hyfforddi ac yn mentora heddlu gwrthgyffuriau a sector cyfiawnder troseddol Affghanistan;
- datblygwyd ein perthynas cymorth cyfreithiol cydweithredol â'r Emiraethau, gan hwyluso'r ataliaeth a galluogi i'r elw troseddol gael ei ddychwelyd o'r Emiraethau Arabaidd Unedig i'r DU am y tro cyntaf;
- cynorthwywyd a hyfforddwyd uned forwrol arbenigol yn Tansania mewn partneriaeth â'r NCA, CPS, y Llynges Frenhinol ac UDA; a
- chafwyd mwy o gydweithredu trwy Brosiect Adfer Asedau Troseddol y Caribî, gan arwain at yr erlyniadau cyntaf am wyngalchu arian yn y Caribî, atafaelu gwerth £1 miliwn o arian troseddol ac atal creu gwerth dros £6.5 miliwn pellach.

2.17 Yn Rhagfyr 2014, ailgysylltodd y DU â 35 o fesurau'r heddlu a chyfiawnder troseddol yr UE, a fydd yn ein galluogi ni i weithio gyda'n partneriaid yn yr UE i amharu ar droseddau cyfundrefnol. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys Europol a Gwarant Arestio Ewropeaidd wedi'i diwygio, sy'n darparu gwell amddiffyniad ar gyfer gwladolion Prydain y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt i'w hestraddodi. Mae'n cynnwys Tîm Cyd-Ymchwilio hefyd, sy'n caniatáu i heddluoedd y DU ac Ewrop gydweithredu mewn gwaith trawsffiniol fel Ymgyrch BIRKHILL. Gwelodd hyn bum troseddwr yn cael eu dedfrydu i gyfanswm o 36 o flynyddoedd o garchar am eu rhan wrth fasnachu dros 120 o fenywod i'r DU o Hwngari, y Weriniaeth Tsiecaidd a Gwlad Pwyl mewn ffordd ddiraddiol yr haf diwethaf.

**Troseddwyr sy'n wladolion tramor**

2.18 Gwladolion tramor yw tua 13 y cant o'r troseddwyr cyfundrefnol sy'n hysbys yn y DU. Rydyn ni'n rhoi mesurau newydd ar waith, ac yn defnyddio pwerau ar fewnfudo er mwyn gwella ein gallu i atal y bobl hynny sydd â hanes o droseddu difrifol rhag dod i mewn i'r DU yn y lle cyntaf, a chymryd camau i alltudio'r rhai a ddedfrydwyd yma.

2.19 Rydyn ni wedi cryfhau'r cysylltiadau rhwng ein systemau mewnfudo, fisa a diogelwch ein ffiniau. Rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014, gwrthodwyd 575 o geisiadau am fisa am resymau troseddol. Mae'r Ymgyrch NEXUS, sef partneriaeth rhwng yr heddlu a'r Swyddfa Gartref, yn cyfuno cudd-wybodaeth ar fewnfudiad a chudd-wybodaeth yr heddlu i asesu'r bygythiad, y risg a'r niwed sy'n gysylltiedig â gwladolion tramor sy'n troseddu yn y DU. Mae hyn wedi ein galluogi mwy na 3,300 o unigolion o'r wlad, gan gynnwys 277 o droseddwyr yr ystyriwyd eu bod yn fygythiad difrifol. Yn 2013/14 alltudiwyd dros 5,000 o droseddwyr difrifol o'r DU yn dilyn dedfrydau o garchar neu gollfarnau yn y llys.

2.20 Rydyn ni'n defnyddio System Wybodaeth Ewrop am Gofnodion Troseddol (ECRIS) i ganfod hanes troseddu gwladolion tramor sy'n gysylltiedig â  throseddu difrifol a chyfundrefnol. Gwelwyd cynnydd yn nifer yr archwiliadau ar wladolion tramor sy'n mynd trwy system gyfiawnder troseddol y DU, o 10,543 yn 2011/12 i 61,040 yn 2014/15 (1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2014 yn unig), ac mae hynny'n ddyledus i raddau helaeth i gyflwyniad ECRIS yn Ebrill 2012. Bydd y DU yn cysylltu ag ail genhedlaeth System Wybodaeth Schengen yn Ebrill 2015, a bydd hyn yn ein galluogi i gyrchu 35,000 o rybuddion am bobl y mae'r heddlu'n chwilio amdanynt mewn cysylltiad â throseddau a gyflawnwyd yn yr UE, ac yn caniatáu i'r asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith yn y DU eu stopio a'u harestio ar y ffin.

**Troseddau blaenoriaeth**

2.21 Yn ogystal â chynnydd yn erbyn yr amcanion penodol a ddisgrifiwyd yn y Strategaeth, rydyn ni wedi blaenoriaethu gweithgarwch i amharu ar y bygythiad o du cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, caethwasiaeth fodern ac arfau tanio, yn ogystal â thwyll a chyffuriau anghyfreithlon.

**Taclo camfanteisio rhywiol ar blant**

2.22 Yn Awst 2014, cyhoeddodd yr Athro Alexis Jay adolygiad o'r cam-fanteisio rhywiol a welwyd ar blant yn Rotherham. Roedd hyn yn dangos bod cam-fanteisio rhywiol cyfundrefnol ar blant wedi bod yn digwydd ar raddfa enfawr, a hynny dros gyfnod o flynyddoedd mawr. Roedd asiantaethau lleol wedi diystyru pryderon, neu wedi rhoi ymateb annigonol. Yn ôl adroddiad Louise Casey ar 4 Chwefror 2015, ers cyhoeddi adroddiad Jay, mae'r Cyngor a'i bartneriaid lleol wedi parhau i wadu maint y broblem, ac ni chymerwyd unrhyw gamau gwirioneddol i roi diwedd ar y gamdriniaeth. Ar 3 Mawrth 2015, cyhoeddodd y Llywodraeth ei ymateb i'r methiannau hyn,[18] gan ddisgrifio cyfres o gamau ymarferol a fydd yn sbarduno newid diwylliannol wrth fynd i'r afael â cham-fanteisio rhywiol ar blant ac yn cynorthwyo'r dioddefwyr. Bydd y mesurau a drafodir yn yr adroddiad hwn yn gwella dulliau'r llywodraeth genedlaethol a lleol, yr heddlu, gwasanaethau ar gyfer plant a gwasanaethau eraill, a phartneriaid eraill, o weithio wrth erlid troseddwyr, yn cynyddu amddiffyniad ac yn lleihau effaith y troseddau.

2.23 Cyhoeddwyd gwaith i wella ein hymateb i fathau eraill o gamdriniaeth rywiol yn rhan o'r adroddiad ar gynnydd y Grŵp Cenedlaethol ar Drais Rhywiol yn Erbyn Plant a Phobl Fregus.[19] Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys camau i wella'r dulliau o erlid troseddwyr, amddiffyn dioddefwyr, gwneud y rhyngrwyd yn fwy diogel i blant a phobl fregus, a'i gwneud yn anos i droseddwyr ddefnyddio technoleg ar lein. Yn 2013, cafodd dros 1,900 o bobl eu herlyn am droseddau a oedd yn cynnwys meddu ar, dosbarthu, cyhoeddi neu gynhyrchu delweddau anweddus o blant. Cafodd mwy na 1,600 o bobl eu dedfrydu yn ystod yr un flwyddyn. [20]Diogelodd neu amddiffynnodd yr NCA dros 1,300 o blant yn ystod ei flwyddyn gyntaf ar waith.

[18] Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: https://www.gov. uk/government/news/home-secretary-publishesgovernment-response-to-rotherham-reports

[19] Y Swyddfa Gartref (2015) *Sexual Violence Against Children and Vulnerable People National Group: Progress Report and Action Plan 2015*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/ sexual-violence-against-children-and-vulnerablepeople-progress-report

[20] Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaethau Dadansoddi Ystadegau Cyfiawnder

2.24 Yng Ngorffennaf 2014, cyhoeddodd yr NCA fanylion ymgyrch na welwyd erioed mo'i thebyg yn erbyn pobl sy'n cam-drin plant ar lein. Arestiwyd mwy na 700 o bobl eisoes trwy Ymgyrch NOTARISE, sef ymgyrch sy'n targedu unigolion ledled y DU sy'n edrych ar, ac yn rhannu delweddau anweddus o blant ar lein. Mae'r NCA wedi gweithio gydag awdurdodau yn UDA ac Awstralia hefyd er mwyn chwalu grŵp troseddu rhyngwladol a oedd yn darlledu delweddau o blant yn cael eu cam-drin yn rhywiol yn fyw o Ynysoedd Philippines. Ym mis Rhagfyr 2014, rhoddodd y Prif Weinidog ymrwymiad i ddarparu £10 miliwn ychwanegol yn 2015/16 i greu timau arbenigol pellach yn yr NCA i fynd i'r afael â'r bobl hynny sy'n cynhyrchu neu'n rhannu delweddau anweddus. Cyhoeddodd hefyd y bwriad o greu tîm ar y cyd rhwng NCA a GCHQ, a fydd yn defnyddio'r technegau diweddaraf ac arbenigedd i ddod o hyd i'r troseddwyr gwaethaf o ran camdriniaeth ar lein.

2.25 Rydyn ni'n adeiladu ar y llwyddiannau gweithredol hyn. Bydd y Gronfa Ddata o Ddelweddau Cam-drin Plant (CAID), yn hwyluso ymchwiliadau'r asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith i ddelweddau anweddus o blant trwy ddarparu un set o ddelweddau cam-drin plant ar y cyd, ynghyd â'u cyfeirnodau rhifyddol unigryw, fel y gellir cyflawni archwiliadau fforensig o ddyfeisiau pobl sydd dan amheuaeth yn gynt. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws iddynt wahaniaethu rhwng delweddau nad oeddent yn hysbys gynt hefyd, fel y gellir adnabod ac amddiffyn y dioddefwyr. Daeth y CAID yn weithredol yn Rhagfyr 2014.

2.26 Ym mis Mai 2014, daeth arbenigwyr o fyd y rhyngrwyd at ei gilydd o dan arweiniad tasglu o'r DU-UDA er mwyn sbarduno syniadau technegol newydd i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar lein, ac amharu ar y troseddwyr, adnabod y dioddefwyr a chadw plant yn ddiogel ar lein. Yn dilyn hynny, cynhaliodd y Prif Weinidog yr uwchgynhadledd #WePROTECT yn Rhagfyr 2014, er mwyn cadarnhau'r gweithredu rhyngwladol. Diogelodd yr Uwchgynhadledd ymrwymiadau ymarferol gan 47 gwlad, dau sefydliad rhyngwladol, 10 sefydliad y gymdeithas sifil ac 14 o gwmnïau blaenllaw i adnabod ac amddiffyn dioddefwyr, ac i gryfhau cydweithredu byd-eang i ddod o hyd i'r troseddwyr. Yn ogystal, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai'n sefydlu cronfa amddiffyn plant newydd ar y cyd ag UNICEF, ac mae'r DU wedi addo £50 miliwn yn hyn o beth dros gyfnod o bum mlynedd. Roedd meithrin partneriaethau cadarn â'r diwydiant yn thema bwysig yn y gynhadledd, a chytunodd Microsoft, Facebook, Google, Yahoo a Twitter i gymryd camau pellach i ddatgelu a dileu deunyddiau sy'n gysylltiedig â cham-drin plant yn rhywiol o'u platfformau a'u gwasanaethau.

**Taclo caethwasiaeth fodern a throseddau mewnfudo cyfundrefnol**

2.27 Mae Caethwasiaeth Fodern yn effeithio ar bobl ym mhedwar ban y byd, gan gynnwys yma yn y DU. Rydyn ni wedi ymrwymo i roi diwedd ar y drosedd ffiaidd hon. Bydd y Bil Caethwasiaeth Fodern [21] yn rhoi'r offer i asiantaethau gorfodi'r gyfraith fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern, yn sicrhau bod troseddwyr yn cael dedfrydau digon llym, ac yn gwella'r gefnogaeth a'r amddiffyniad sydd ar gael i'r dioddefwyr. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, disgwylir i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2015.

2.28 Un rhan yn unig o'r ateb yw deddfwriaeth. Ym mis Tachwedd 2014, cyhoeddwyd ein Strategaeth Caethwasiaeth Fodern sy'n disgrifio dull Llywodraeth-eang o fynd ati i drechu

[21] Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.gov.uk/ government/collections/modern-slavery-bill

caethwasiaeth fodern.[22] Mae hyn yn cynnwys ymateb cadarnach o ran gorfodi'r gyfraith dan arweiniad yr NCA, gweithredu rhyngwladol cydlynol, mwy o ymwybyddiaeth ymysg pobl sy'n gweithio yn y rheng flaen, a chydweithio agosach rhwng y sector preifat a chymunedau lleol. Mae'r NCA wrthi'n sefydlu 'Hyb Uno' a fydd yn dod â'r partneriaid allweddol at ei gilydd mewn un hyb amlasiantaeth er mwyn rhannu cudd-wybodaeth ar gaethwasiaeth fodern, datblygu asesiadau tactegol ar y cyd, a bwydo deilliannau gweithredol. Mae Arweinydd yr Heddlu ar faterion Caethwasiaeth Fodern yn cydlynu gwaith i gryfhau ymateb yr heddlu.

2.29 Er bod collfarnau yn y maes hwn ar gynnydd, mae'r nifer yn dal i fod yn rhy fach o lawer. Gwelwyd cwta 68 o gollfarnau yn 2013, sef cynnydd bychan ar y 41 collfarn a welwyd yn 2011. Yn ôl data'r CPS, nodwyd bod gan 226 o'r achosion a gollfarnwyd yn 2013/14 gysylltiad â masnachu pobl, ac mae hynny mwy na dwbl y nifer a nodwyd yn 2010/11 (103 o achosion). O ganlyniad, mae'r Llywodraeth yn parhau i gynorthwyo a herio'r rhai sy'n gorfodi'r gyfraith i wneud rhagor. Penodwyd darpar-Gomisiynydd Gwrth-Gaethwasiaeth Annibynnol newydd ym mis Tachwedd 2014 i hyrwyddo arferion da, a bydd adroddiad blynyddol y Comisiynydd yn cynnwys asesiad manwl o berfformiad y rhai sy'n gorfodi'r gyfraith. Yn ogystal, yn rhan o raglen archwiliadau 2014-16, bydd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn arwain archwiliad ar y cyd ag arolygiaethau cyfiawnder troseddol eraill o ymateb heddluoedd i gaethwasiaeth fodern.

2.30 Rydyn ni'n cymryd camau ar lefel genedlaethol a rhyngwladol i fynd i'r afael â'r grwpiau troseddu cyfundrefnol sydd y tu ôl i fewnfudiad anghyfreithlon. Er enghraifft, sefydlwyd tasglu'r DU ar droseddau cyfundrefnol sy'n ymwneud â mewnfudiad, sy'n cynnwys yr NCA, Llu'r Ffiniau a swyddogion Gorfodi Mewnfudiad. Mae hyn yn rhannu cudd-wybodaeth ag ymchwilwyr yn Ffrainc, ac yn cryfhau gallu'r DU i fynd i'r afael â grwpiau troseddu cyfundrefnol sy'n ymwneud â smyglo a masnachu pobl.

**Taclo arfau tanio**

2.31 Er taw cyfran fechan yn unig o'r holl droseddau a gofnodir yn y DU yw'r troseddau sy'n ymwneud ag arfau tanio, mae arfau tanio anghyfreithlon ar gael yn hwylus i grwpiau troseddu cyfundrefnol pan fo angen. Mae'r NCA a heddluoedd y DU yn cydweithio'n agos i roi hwb i'r darlun o ran cudd-wybodaeth, a rhyddhau ein strydoedd rhag arfau tanio. Gan y DU y mae rhai o gyfreithiau cadarnaf y byd o ran arfau tanio, a chynyddodd Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 y ddedfryd fwyaf am fewnforio arfau tanio anghyfreithlon, ac am feddu arnynt â'r bwriad o'u gwerthu neu eu trosglwyddo, i garchar am oes. Gallai newidiadau eraill olygu na all unrhyw un sy'n cael dedfryd o garchar am fwy na thair blynedd byth feddu ar arf danio yn gyfreithlon, gan gynnwys arfau tanio hynafol. Mae gwaith ar droed i sicrhau bod gwybodaeth sy'n deillio o geisiadau aflwyddiannus am drwyddedau yn cael ei rhannu â'r holl asiantaethau perthnasol.

2.32 Yn dilyn ymosodiadau'r terfysgwyr ym Mharis ym mis Ionawr, rydyn ni wedi cynnig gweithredu ymdrechion cadarnach ar draws yr UE i fynd i'r afael â meddiannaeth anghyfreithlon a masnachu

---

[22] Y Swyddfa Gartref (2014) *Modern Slavery Strategy.* Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/ uploads/attachment_data/ file/383764/Modern_Slavery_Strategy_FINAL_DEC2015.pdf

arfau tanio. Mae'r DU wedi parhau i chwarae rhan flaenllaw wrth hyrwyddo gwell cydweithredu o ran rhannu a dadansoddi data fforensig am falisteg ymysg partneriaid yn yr UE, gan gynnwys trwy wella'r ymgysylltiad ag Europol ac Interpol. Y nod yn hyn o beth yw cynyddu capasiti asiantaethau gorfodi'r gyfraith i olrhain yr arfau tanio sy'n cael eu masnachu i mewn i Ewrop a thrwy Ewrop. Rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid yn yr UE hefyd er mwyn pennu safonau mwy llym ar gyfer dad-actifadu arfau tanio fel y bydd yn anos iddynt gael eu hail-actifadu gan droseddwyr neu derfysgwyr.

**Taclo twyll**

2.33 Mae twyll yn rhinwedd troseddu cyfundrefnol yn costio biliynau o bunnoedd y flwyddyn i'r DU. Action Fraud yw'r prif lwybr i unigolion a busnesau hysbysu'r awdurdodau am seiberdroseddau a throseddau ariannol, fel y gall y Ganolfan Cudd-wybodaeth Wladol ar Dwyll adnabod troseddau cysylltiedig, cyflawni gweithgareddau i amharu ar y gweithgareddau hyn, neu sicrhau eu bod yn cael eu cyfeirio at yr heddlu cywir i ymchwilio iddynt. Er mwyn gwella'r ymateb i achosion o dwyll a seiberdroseddau a gofnodir, trosglwyddwyd cyfrifoldeb dros Action Fraud i Heddlu Dinas Llundain yn 2014, er mwyn ei gysylltu'n agosach â'r Ganolfan Cudd-wybodaeth Wladol ar Dwyll. Yn 2013/14, lledaenodd Heddlu Dinas Llundain tua 40,000 o adroddiadau i heddluoedd lleol, fel eu bod yn gallu ystyried ymchwilio iddynt. Gallwn ddisgwyl i'r ffigur hwn gynyddu eleni wrth i Heddlu Dinas Llundain roi rhaglen o welliannau ar waith i sicrhau bod mwy o achosion posibl o dwyll a seiberdroseddau yn cael eu rhannu allan i heddluoedd ymchwilio iddynt. Bydd hyn yn gwella'r gwasanaethau y mae dioddefwyr y trais yn eu cael hefyd.

2.34 Yn Chwefror 2014, arestiodd Heddlu Dinas Llundain dros 100 o bobl a oedd dan amheuaeth o dwyll yn y DU, Sbaen, UDA a Serbia, ar y cyd â'r NCA, y Swyddfa Twyll Difrifol (SFO), FCA a'r partneriaid rhyngwladol. Roedd hyn yn rhan o ymchwiliad cydlynol i achosion o dwyll a alwyd yn 'dwyll ystafell fwyler'. Ym mis Mehefin 2014, llwyddodd yr SFO i gollfarnu dau unigolyn - gan ddod â'r cyfanswm i naw - am eu rôl yn yr achos mwyaf o 'dwyll ystafell fwyler' erioed i gael ei erlid gan awdurdod yn y DU, lle llwyddodd y twyllwyr i gaffael dros £70 miliwn trwy dwyll gan fuddsoddwyr yn y DU. Yn 2014, daeth yr SFO ag erlyniadau yn erbyn 13 o unigolion, gan lwyddo i ddiogelu eu collfarn gyntaf mewn perthynas â ffugio Cyfradd Cynnig InterBank Llundain (LIBOR), ac mewn achos arall, agorwyd ymchwiliad i honiadau o ymddygiad twyllodrus yn y farchnad cyfnewidfeydd tramor.

**Taclo cyffuriau anghyfreithlon**

2.35 Mae taclo'r troseddwyr difrifol a chyfundrefnol sy'n mewnforio, yn cynhyrchu ac yn gwerthu cyffuriau yn dal i fod yn flaenoriaeth i'r NCA, yr heddluoedd a Llu'r Ffiniau. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, arweiniodd gweithgarwch a oedd yn cael ei arwain a'i gydlynu gan yr NCA at arestio 711 o bobl am droseddau a oedd yn ymwneud â chyffuriau yn y DU. Yn 2013/14, cafwyd 192,294 o achosion o atafaelu cyffuriau gan heddluoedd a Llu'r Ffiniau yng Nghymru a Lloegr.[23]

2.36 Ym mis Hydref 2014, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ganfyddiadau panel arbenigol a fu'n archwilio i ddulliau o fynd ati i wella ein hymateb deddfwriaethol a'n hymateb ehangach i'r cynnydd

[23] Y Swyddfa Gartref (2014) *Seizures of Drugs in England and Wales, 2013/14*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/ attachment_data/file/367464/hosb0314snr.pdf

mewn sylweddau seicoweithredol newydd.[24] Fe dderbynion ni'r mwyafrif o'r argymhellion, a byddwn yn datblygu cynigion am waharddiad cyffredinol ar werthu sylweddau seicoweithredol newydd. Rydyn ni wedi cynnal y System Rhybudd Cynnar Fforensig, sy'n ein galluogi i adnabod sylweddau newydd a denu sylw Llu'r Ffiniau yn gyflym, ac rydyn ni'n parhau i weithio gyda Crimestoppers i ganfod a chau ffatrïoedd canabis.

---

[24] Y Swyddfa Gartref (2014) *New Psychoactive Substances Review: Report of the Expert Panel*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/ uploads/system/uploads/attachment_data/ file/368583/NPSexpertReviewPanelReport.pdf

**Atal**

2.37 Rydyn ni wedi sefydlu rhaglen Atal newydd mewn perthynas â throseddau difrifol a chyfundrefnol yng Nghymru a Lloegr, gan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd trwy atal terfysgaeth ac eithafiaeth. Ni fyddwn yn teimlo effaith lawn y dull newydd hwn o fynd ati yn ein cymunedau a'n carchardai dros nos, a byddwn ni'n ehangu ein gwaith Atal yn 2015. Pennodd y Strategaeth yr amcanion canlynol:

- rhwystro pobl rhag cymryd rhan mewn troseddau difrifol a chyfundrefnol trwy godi ymwybyddiaeth am y gwirionedd a'r goblygiadau;
- defnyddio ymyrraethau er mwyn atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i wahanol fathau o droseddu difrifol a chyfundrefnol;
- datblygu technegau er mwyn rhwystro pobl rhag parhau i gymryd rhan mewn troseddau difrifol a chyfundrefnol; a
- sefydlu fframwaith effeithiol ar gyfer rheoli troseddwyr er mwyn cynorthwyo'r gwaith Erlid ac Atal.

**Rhwystro pobl rhag cymryd rhan mewn troseddau difrifol a chyfundrefnol**

2.38 Ein nod gyntaf o dan y pennawd Atal yw atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i droseddau difrifol a chyfundrefnol. Mae hyn yn galw am bartneriaethau lleol cadarn (gweler hefyd paragraffau 2.5 a 2.6). Rydyn ni wedi sefydlu cyfres o brosiectau Atal peilot er mwyn datblygu'r technegau, yr arferion gorau a'r astudiaethau achos angenrheidiol i adnabod yr unigolion hynny sydd mewn perygl ac ymyrryd mewn ffordd ragweithiol. Mae hyn yn cynnwys mentrau i fentora pobl ifanc, codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu menywod a merched. Rydyn ni wedi sefydlu Tîm Rheng Flaen er mwyn helpu i gyflawni'r prosiectau hyn yn lleol.

2.39 Rydyn ni'n cydweithio'n agos â rhaglenni sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â gangiau a theuluoedd cythryblus. Rydyn ni wedi ehangu'r rhaglen Teuluoedd Cythryblus er mwyn galluogi partneriaid lleol i weithio gyda rhieni a phlant sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad â throseddu cyfundrefnol. Ychwanegwyd arbenigwyr ym maes troseddu difrifol a chyfundrefnol at y rhwydwaith Terfynu Gangiau a Thrais Ieuenctid, ac mae heddluoedd a budd-ddeiliaid lleol eraill wedi cael pecyn cymorth i fynd i'r afael â'r gangiau sy'n gysylltiedig â gwerthu cyffuriau a chamfanteisio ar blant ar lefel ryngwladol. Mae gwaith yn cael ei ddatblygu gyda'r NCA ac Arweinwyr yr Heddlu ar lefel Genedlaethol er mwyn datblygu ymateb sy'n seiliedig ar gudd-wybodaeth i'r bygythiad hwn.

2.40 Mae troseddwyr yn ceisio gwyngalchu arian trwy'r sector ariannol, gan ddefnyddio 'porthgeidwaid' fel cyfreithwyr, cyfrifwyr a bancwyr. Mae'n bwysig bod y galwedigaethau hyn yn cydnabod peryglon hwyluso gweithgarwch troseddol, dim ots a ydynt yn ymwybodol o'r peth ai peidio, wrth gydnabod bod y mwyafrif helaeth o fusnesau'n gweithredu'n gyfreithlon. Mewn partneriaeth â'r NCA a chyrff proffesiynol, fe lansion ni ymgyrch i dargedu tua 130,000 o gyfreithwyr er mwyn atal eu cysylltiad posibl â throseddu cyfundrefnol yn 2014. Rydyn ni'n bwriadu ymestyn yr ymgyrch hon i sectorau eraill yn 2015. Yn ogystal, mae CThEM yn rheoli rhaglen addysg â'r nod o wella ymwybyddiaeth busnesau am dwyll, ac yn enwedig yn y sector ariannol.

2.41 Dosbarthodd yr NCA lythyrau rhybuddio, anfonwyd negeseuon e-bost a chyflawnwyd ymweliadau 'ymatal' â dros 600 o unigolion yn y DU a oedd wedi prynu'r maleiswedd Blackshades,

sef offeryn cyrchu o bell sy'n gallu cymryd rheolaeth dros gwe-gamerâu defnyddwyr eraill, a dwyn cyfrineiriau. Cydlynwyd y gweithgarwch Atal yma ag arestiadau er mwyn mwyafu'r effaith ataliol.

2.42 Mae'r NCA yn archwilio'r dulliau y mae pobl sy'n cyflawni troseddau rhywiol yn erbyn plant yn eu defnyddio i fynd o gwmpas eu pethau, a hynny er mwyn datblygu dulliau arloesol o helpu i atal y bygythiad.

**Rhwystro pobl rhag parhau â throseddu difrifol a chyfundrefnol**

2.43 Rydyn ni am atal troseddwyr difrifol a chyfundrefnol rhag parhau i droseddu, a chwtogi ar aildroseddu ymysg troseddwyr sydd wedi cael eu collfarnu. Ar 30 Medi 2014, roedd rhyw 7,000 o droseddwyr cyfundrefnol yn y carchar, ac roedd gan ryw 40 y cant o'r grwpiau troseddu difrifol a chyfundrefnol hysbys o leiaf un aelod yn y carchar. Mae ymchwilio i'r bobl hynny sy'n mynnu parhau â'u gweithgarwch troseddol yn y carchar, ac amharu arnynt, yn flaenoriaeth. Mae'n cael ei gydlynu trwy rannu manylion troseddwyr sydd yn y ddalfa yn gyson ac mae'r Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol (NOMS) yn cymryd rhan yn nhrefniadau tasg yr NCA. Rydyn ni'n ehangu system cudd-wybodaeth gyfredol y carchardai hefyd. Er bod y ffocws wedi bod ar wella'r dulliau o ddatgelu ac amharu ar droseddu parhaus yn y carchar yn 2014, rydyn ni'n datblygu fframwaith rheoli ehangach am oes er mwyn rheoli symudiad troseddwyr trwy'r system gyfiawnder troseddol yn fwy effeithiol, gan gynnwys ar ôl eu rhyddhau o'r carchar.

2.44 Mae'r NCA a Choleg yr Heddlu yn datblygu deunydd er mwyn cynnwys hyfforddiant ar orchmynion ategol yn hyfforddiant Uwch Swyddogion Ymchwilio. Mae'r Swyddfa Gartref yn gweithio gyda'r CPS a'r NCA hefyd er mwyn casglu data pellach ar y defnydd cyfredol o'r gorchmynion hyn, a pham nad ydynt yn cael eu defnyddio cymaint ag y gallen nhw, a hynny er mwyn bwydo canllawiau a hyfforddiant yn y dyfodol. Mae'r gorchmynion sifil hyn yn offer pwerus i atal troseddau, ac maent yn cynnwys Gorchmynion Atal Troseddau Difrifol, Gorchmynion Adrodd Ariannol a Gorchmynion Cyfyngu ar Deithio. Mae Deddf Troseddau Difrifol 2015 (gweler hefyd paragraff 2.14) yn ehangu cwmpas y troseddau y gellir eu defnyddio ar eu cyfer.

2.45 Mae cael ffonau poced anghyfreithlon yn y carchar yn ei gwneud yn haws i droseddwyr cyfundrefnol barhau i droseddu o'r carchar. Mae NOMS wrthi'n caffael offer ychwanegol i'w defnyddio ar draws ystâd y carchardai i amharu ar signalau a datgelu ffonau poced. Mae Deddf Troseddau Difrifol 2015 yn cyflwyno pwerau newydd, a fydd yn galluogi'r llysoedd i orchymyn bod gweithredwyr rhwydweithiau ffôn poced yn datgysylltu ffonau poced diawdurdod sy'n cael eu defnyddio yn y carchar.

**Amddiffyn**

2.46 Nod y rhaglen Amddiffyn eang ei chwmpas yw ein gwneud yn llai bregus i droseddau difrifol a chyfundrefnol ar draws y llywodraeth, yn y sector preifat a'r cyhoedd. Mae rhan helaeth o'r rhaglen yn newydd, a bydd cwmpas ein gwaith yn ehangu eto yn 2015. Disgrifiodd y Strategaeth yr amcanion canlynol:

- amddiffyn ein ffiniau rhag troseddau difrifol a chyfundrefnol;
- amddiffyn llywodraeth genedlaethol a lleol rhag troseddau difrifol a chyfundrefnol;
- gwella diogelwch amddiffynnol yn y sector preifat trwy rannu cudd-wybodaeth am unrhyw fygythiad o droseddu difrifol a chyfundrefnol;
- amddiffyn pobl sydd mewn perygl o ddioddef troseddau difrifol a chyfundrefnol, ac yn arbennig seiberdroseddau a thwyll;
- gwella ein systemau gwrth-lygredigaeth; a
- chadarnhau'r systemau ar gyfer canfod hunaniaeth pobl fel y gwrthodir cyfleoedd i droseddwyr difrifol a chyfundrefnol gam-fanteisio ar ddata ffug neu ddata personol sydd wedi cael ei ddwyn.

**Amddiffyn ein ffiniau**

2.47 Mae cyfran sylweddol o droseddau difrifol a chyfundrefnol yn ymwneud â symud pobl, nwyddau ac arian ar draws ffiniau'r DU, gyda throseddwyr yn ymdrechu i fanteisio ar unrhyw wendidau posibl. Ond mae'r ffin yn darparu cyfleoedd pwysig hefyd i'r asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith amharu ar grwpiau troseddu difrifol a chyfundrefnol. Yn 2014, sefydlon ni dimau amlasiantaeth newydd ar y ffiniau, gyda chynrychiolwyr o Lu'r Ffiniau, yr Heddlu Arbennig, yr NCA a Swyddogion Gorfodi ym maes Mewnfudiad. Mae'r gwaith ar y cyd wedi arwain at atafaeliadau ac arestiadau na fyddai wedi bod yn bosibl o'r blaen.

2.48 Atafaelodd Llu'r Ffiniau 3.2 tunnell o gyffuriau Dosbarth A, a 319 miliwn o sigaréts ar y ffin yn 2013/14.[25] Mae tua 70 miliwn o barseli a 7 miliwn o flychau cargo llongau yn dod i'r DU bob blwyddyn. Er mwyn gwella ein gallu i dargedu llwythi amheus, rydyn ni'n cyflwyno'r Gallu Awtomatig i Dargedu Llwythi. Mae Llu'r Ffiniau a'r NCA yn gweithio gyda chwmnïau cludo i hybu'r arfer o rannu gwybodaeth, cymryd camau yn erbyn parseli cyn iddynt gyrraedd y DU, a chyflawni ymgyrchoedd sydd wedi eu targedu'n dynnach ar y ffiniau.

**Amddiffyn llywodraeth genedlaethol a lleol**

2.49 CThEM sy'n gweinyddu system drethi'r DU ac elfennau o'r system fudd-daliadau, ac mae'r rhain yn dargedau deniadol ar gyfer grwpiau troseddu cyfundrefnol. Mae CThEM yn defnyddio amrywiaeth o ymyraethau i amddiffyn y DU rhag ymosodiadau troseddol ac i erlid y rhai sy'n cyflawni troseddau. Yn 2013/14, llwyddodd CThEM i atal gwerth £2.9 biliwn o golledion oherwydd troseddu difrifol a chyfundrefnol, ac mae hi ar y trywydd iawn i ragori ar y ffigur hwnnw eleni.

2.50 Mae contractau caffael y sector cyhoeddus yn agored i dwyll hefyd. Gyda chymorth yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, rydyn ni'n gweithio gydag awdurdodau lleol i gyflawni prosiect

---

[25] Y Swyddfa Gartref (2014) *Border Force Transparency Data.* Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/border-forcetransparency-data-november-2014

newydd i'w hamddiffyn yn well yn erbyn troseddwyr sydd â'u bryd ar ymdreiddio i'w prosesau caffael. Fe gychwynnon ni bedwar prosiect peilot yn Hydref 2014 er mwyn canfod pa gontractau sydd mewn perygl o dwyll, trwy gymharu data awdurdodau lleol â chudd-wybodaeth am grwpiau troseddu cyfundrefnol. Defnyddir y wybodaeth hon i fwydo ymchwiliadau'r heddlu, dileu cyflenwyr a chryfhau'r broses gaffael er mwyn dileu'r gwendidau a galluogi awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau gwell am risgiau mewn perthynas â rhai contractau a gwasanaethau.

**Gweithio gyda'r sector preifat**

2.51 Rydyn ni wedi meithrin partneriaethau agosach â'r sector preifat er mwyn helpu busnesau i'w hamddiffyn eu hunain a'u cwsmeriaid rhag troseddau economaidd a gwyngalchu arian (gweler paragraffau 2.12 a 2.13). Mae Gwasanaeth Dilysu Gwrth-Dwyll newydd, a fydd yn tynnu data gan y llywodraeth a sefydliadau'r sector preifat ynghyd, yn cael ei brofi. Os cymeradwyir y cynllun, bydd yn galluogi CThEM, yr Adran Gwaith a Phensiynau, banciau ac yswirwyr i gronni eu data, a chyflawni dilysiadau awtomatig er mwyn atal twyll cyn cymeradwyo trafodion.

**Amddiffyn yn erbyn seiberdroseddau a thwyll**

2.52 Mae GCHQ yn amcangyfrif y gellid atal hyd at 80 y cant o seiberdroseddau trwy roi mesurau diogelwch da ar waith, ond o ystyried maint y bygythiad ar lein, mae angen atgyfnerthu'r rhain.

2.53 Yn ystod Ymgyrch TOVAR, bu'r NCA yn gweithio gyda'i bartneriaid yn y DU a thramor, gan gynnwys partneriaid o'r byd diwydiant, er mwyn amharu ar y maleiswedd Gameover ZeuS a CryptoLocker, sydd wedi bod yn gyfrifol am golledion gwerth cannoedd o filiynau o bunnoedd ym mhedwar ban y byd. O ganlyniad, cofnododd banciau ostyngiad mawr yn eu taliadau iawndal ariannol, ac arweiniodd yr ymgyrch at gynnydd o 300-400 y cant yn nifer y pecynnau atal maleiswedd a lawrlwythwyd. Llwyddodd ymgyrchoedd eraill a gydlynwyd gan yr NCA i chwalu rhan helaeth o'r seilwaith a ddefnyddiwyd gan amrywiolyn o'r maleiswedd Shylock; ac amcangyfrifir bod hynny wedi amddiffyn dros £100 miliwn rhag cael eu dwyn.

2.54 Ers lansio ymgyrch Cyber Streetwise[26] yn Ionawr 2014, mae tua phedwar y cant o'r oedolion a arolygwyd yn dweud eu bod wedi newid eu hymddygiad i fabwysiadu arferion mwy diogel ar lein, fel defnyddio cyfrineiriau mwy diogel. Yn genedlaethol, amcangyfrifir bod hyn yn golygu bod rhyw ddwy filiwn o oedolion wedi newid eu hymddygiad. Dechreuodd ail ran yr ymgyrch yn Hydref 2014, ac mae'n rhoi mwy o ffocws ar fentrau bach a chanolig (MBaCh). Hyd yn hyn, mae ymwybyddiaeth am Cyber Streetwise wedi dyblu ymysg MBaCh, gan ddangos bod seiberddiogelwch yn flaenoriaeth gynyddol. Ers Hydref 2013, mae'r NCA wedi cyrraedd dros 3.4 miliwn o blant gyda'i raglen Think U Know, ac wedi hyfforddi dros 800 o 'genhadon' i rannu negeseuon mewn ysgolion, er mwyn helpu plant i gadw'n ddiogel ar lein.

2.55 Ym mis Hydref 2014, fe gynhalion ni ymgyrch gyfathrebu beilot o'r enw Spot It Stop It mewn partneriaeth â'r heddlu er mwyn annog pobl oedrannus i'w hamddiffyn eu hunain rhag troseddau ariannol. Arweiniodd hyn at 15 y cant yn fwy o'r gynulleidfa darged - sydd gyfwerth â rhyw 24,000 o bobl - yn dweud y byddent yn debygol iawn o fabwysiadu'r camau amddiffynnol a argymhellwyd gan

[26] Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: http://www.cyberstreetwise.com

yr ymgyrch, fel peidio byth â rhannu gwybodaeth bersonol, a gwirio bod pobl yn dod o sefydliadau dilys. Ym mis Hydref 2014, lansiodd yr FCA ScamSmart, sef ymgyrch hysbysebu i helpu cwsmeriaid i adnabod sgamiau buddsoddi, a'u hamddiffyn eu hunain rhagddynt. Mae CThEM yn parhau i weithio gyda busnesau mawr i wella eu hymwybyddiaeth, a'u hamddiffyn eu hunain rhag twyll.

2.56 Rydyn ni'n cyflawni gwaith ymchwil pellach i'r agweddau a'r ymddygiad a allai olygu bod gwahanol grwpiau o bobl yn y DU yn fwy agored i ddioddef troseddau difrifol a chyfundrefnol, fel agweddau at gyllid personol neu siopa ar lein. Disgwylir cwblhau'r dadansoddiad hwn yng ngwanwyn 2015. Bydd hyn yn bwydo datblygiad a chyflawniad rhaglenni codi ymwybyddiaeth ac addysg genedlaethol a lleol i annog pobl i ymddwyn yn fwy diogel.

**Amddiffyn rhag llwgrwobrwyaeth a llygredigaeth**

2.57 Llygredigaeth yw un o'r pethau allweddol sy'n galluogi troseddau difrifol a chyfundrefnol. Os nad yw'n cael ei atal, mae'n niweidio cymunedau, ac yn tanseilio unplygrwydd sefydliadau o'r sectorau cyhoeddus a phreifat, ac yn y pendraw, dilysrwydd y wladwriaeth. Felly, dros y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi ei gwneud hi'n flaenoriaeth gwella ein hymateb i lygredigaeth, a mynd i'r afael â'n gwendidau.

2.58 Cyhoeddwyd cynllun gweithredu gwrth-lygredigaeth newydd yn Rhagfyr 2014 er mwyn cydlynu'r gwaith sy'n cael ei gyflawni ar draws holl adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth i daclo llygredigaeth yn y DU a thramor. Mae'r cynllun yn disgrifio amrywiaeth o gamau y mae'r llywodraeth yn eu cymryd, gan gynnwys sefydlu uned gwrth-lygredigaeth ryngwladol newydd arbenigol yn yr NCA fel canolfan arbenigedd, a chreu darlun gwell o'r bygythiad i'r DU o du llygredigaeth dramor. Rydym am gryfhau ymateb ein hasiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith i lygredigaeth ryngwladol a gwyngalchu elw o droseddu hefyd. Mae'r NCA wedi canolbwyntio ar daclo llygredigaeth yn y DU hefyd. Er enghraifft, yn 2014 diogelodd yr NCA nifer o gollfarnau yn dilyn ymchwiliadau troseddol i dwyll mewn perthynas â ffugio canlyniadau gemau pêl-droed. Diogelodd yr SFO 15 o gollfarnau, gan gynnwys ei gollfarnau cyntaf o dan y Ddeddf Llwgrwobrwyaeth. Yn ogystal, diogelodd gollfarn gyntaf erioed y DU ar gyfer cwmni a gyhuddwyd o drosedd llygredigaeth, ac mae ei ffocws yn dal i fod ar gwmnïau ac unigolion sy'n gysylltiedig ag achosion difrifol neu gymhleth o lygredigaeth. Cymrodd yr FCA gamau gorfodi yn erbyn nifer o gwmnïau a oedd â systemau a rheolaeth gwrth-lygredigaeth annigonol yn 2014 hefyd.

2.59 Pan oedd y DU yn Llywyddu'r Gynhadledd G8 yn 2013, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai'r DU yn sefydlu cofrestr gyhoeddus o wybodaeth am berchnogaeth lesiannol ar gwmnïau. Bydd hyn yn gwella tryloywder, ac yn lleihau'r cyfleoedd i droseddwyr gamddefnyddio cwmnïau er mwyn hwyluso gwyngalchu arian a gweithgarwch llygredig. Mae'r Bil Busnesau Bach, Mentrau a Chyflogaeth, a fydd yn sefydlu'r gofrestr, yn mynd trwy'r Senedd ar hyn o bryd.

**Paratoi**

2.60 Rydyn ni wedi sefydlu thema Paratoi newydd er mwyn gwella ein parodrwydd a rhoi cefnogaeth fwy effeithiol i ddioddefwyr a thystion. Pennodd y Strategaeth yr amcanion canlynol:

- sicrhau bod gennym ni'r galluoedd angenrheidiol i ymateb i ddigwyddiadau o bwys o droseddau difrifol a chyfundrefnol; a
- darparu cyfiawnder troseddol effeithiol, a chymorth arall ar gyfer y cymunedau, y dioddefwyr a'r tystion y mae troseddau difrifol a chyfundrefnol yn effeithio arnynt.

**Ymateb i ddigwyddiadau o droseddau difrifol a chyfundrefnol**

2.61 Mae ein gwaith ar Baratoi yn adlewyrchu'r gwirionedd, hynny yw does dim ots pa mor effeithiol yw'n hymateb, bydd troseddau difrifol a chyfundrefnol yn parhau i ddigwydd. Felly, mae angen i ni fod yn gallu ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau o bwys â goblygiadau rhanbarthol neu genedlaethol. Trwy ddysgu gan ein profiadau gwrthderfysgaeth, fe sefydlon ni raglen newydd o waith ymarfer a phrofi ym maes troseddau difrifol a chyfundrefnol yn 2014. Datblygwyd y gwaith yma ar y cyd gan y Swyddfa Gartref, yr NCA ac arweinwyr cenedlaethol yr heddlu.

2.62 Daeth SCARLET EXPLORER, sef yr ymarfer cyntaf a oedd yn saith wythnos o hyd, i ben yn Rhagfyr 2014. Roedd hwn yn profi gallu heddluoedd, yr NCA, y ROCU, CThEM a phartneriaid eraill i adnabod y grwpiau a'r unigolion mwyaf niweidiol ym maes troseddu cyfundrefnol, ac ymateb iddynt, a hynny ar draws amrywiaeth eang o fathau o droseddau. Defnyddir y gwersi a ddysgir o'r ymarfer hwn i gryfhau'r ymateb gweithredol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i'r bygythiadau mwyaf difrifol, ac i fwydo ymarferion at y dyfodol.

2.63 Mae ail ran ein gwaith ym maes parodrwydd yn ymwneud â'r bygythiad o du seiberdroseddu. Cydweithiodd y Swyddfa Gartref yn agos â Thîm Ymateb i Argyfyngau Cyfrifiadurol y DU, a lansiwyd gan Swyddfa'r Cabinet ar 31 Mawrth 2014, i ddatblygu a sefydlu'r broses ar gyfer rheoli digwyddiadau seiberddiogelwch cenedlaethol. Wrth baratoi ar gyfer Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow, cafodd y trefniadau seiberymateb eu profi a'u cymeradwyo gan lywodraethau'r DU a'r Alban ar y cyd.

**Cynorthwyo cymunedau, dioddefwyr a thystion**

2.64 Daeth Cod Ymarfer statudol newydd ar gyfer Dioddefwyr Troseddau i rym ym mis Rhagfyr 2013.[27] Mae'r cod yn pennu'r gwasanaethau a'r wybodaeth y mae gan ddioddefwyr hawl i'w cael gan asiantaethau cyfiawnder troseddol, o'r funud y byddant yn hysbysu am drosedd hyd ddiwedd yr achos a'r tu hwnt. O dan y Cod, mae gan ddioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol, dioddefwyr sy'n cael eu targedu dro ar ôl tro, a dioddefwyr bregus a rhai sy'n cael eu bygwth yr hawl i lefel uwch o wasanaethau. Yr un pryd, cyhoeddodd y Llywodraeth Siarter newydd ar gyfer Tystion[28] sy'n disgrifio'r safonau gofal ar gyfer tystion yn y system gyfiawnder troseddol. Disgrifiwyd gwelliannau eraill a

[27] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2013) *Code of Practice for Victims of Crime.* Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/the-code-ofpractice-for-victims-of-crime

[28] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2013)*The Witness Charter: Standards of Care for Witnesses in the Criminal Justice System.* Ar gael yn: https://www.gov.uk/ government/publications/the-witness-charterstandards-of-care-for-witnesses-in-the-criminaljustice-system

fwriedir yn Ein Hymrwymiad i Ddioddefwyr,[29] a gyhoeddwyd ym Medi 2014, sy'n cynnwys cynigion ar gyfer Gwasanaeth Gwybodaeth cenedlaethol newydd ar gyfer Dioddefwyr.

2.65 Rydyn ni wedi cymryd camau pwysig i sicrhau bod pobl sy'n dyst i droseddau, a phobl fregus eraill y gallai eu bywydau fod mewn perygl, yn cael ei hamddiffyn yn well. Lansiwyd Gwasanaeth newydd i Bobl a Amddiffynnir yn y DU ym mis Hydref 2013 er mwyn darparu mwy o amddiffyniad a chefnogaeth i'r bobl sydd yn y perygl mwyaf. Mae Swyddfa Ganolog yr NCA yn cydweithio ag unedau rhanbarthol yr heddlu sy'n cyflawni'r Gwasanaeth, gan ddarparu cydlyniant, cyfeiriad a chymorth hanfodol. Mae hyn yn cynnwys cyflawni hyfforddiant a safonau. Mae'r Gwasanaeth newydd yn seiliedig ar well cydlyniant a rhannu cudd-wybodaeth rhwng heddluoedd, ac o ganlyniad, mae'n darparu amddiffyniad mwy cyson ac effeithiol ar gyfer bobl hynny y mae angen eu hamddiffyn ar draws y DU.

2.66 Rydyn ni wedi creu Grŵp Mentrau Gwirfoddol, Cymunedol a Chymdeithasol sy'n cysylltu'r llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith â phartneriaid allweddol a'u rhwydweithiau ehangach, gan gysylltu miloedd o sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r Grŵp yn 2014 er mwyn rhannu gwybodaeth am y bygythiadau o du troseddau difrifol a chyfundrefnol, ac er mwyn archwilio gweithgarwch ar y cyd i fynd i'r afael â nhw. Roedd hyn yn cynnwys yr ymgyrch  Spot It Stop It (gweler paragraff 2.55), lle chwaraeodd Gwylio'r Gymdogaeth, Cymorth i Ddioddefwyr a Crimestoppers ran hanfodol wrth gyhoeddi negeseuon i amddiffyn pobl fregus.

[29] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2014) *Our Commitment to Victims.* Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/our-commitment-tovictims-september-2014

**CASGLIAD**

Mae lansio'r Strategaeth Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol, ynghyd â sefydlu'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, yn dangos bod y Llywodraeth hon yn blaenoriaethu gwaith i fynd i'r afael â Throseddu Difrifol a Chyfundrefnol. Mae'r Strategaeth yn darparu fframwaith effeithiol ar gyfer ymateb i'r bygythiadau sy'n ein hwynebu.

Fel y mae'r adroddiad hwn yn ei ddangos, mae'r Llywodraeth wedi parhau i ddarparu'r pwerau a'r galluoedd sydd eu hangen ar yr NCA, heddluoedd ac asiantaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith. Rydyn ni wedi gwella ein dealltwriaeth am y bygythiad, wedi cryfhau ein cydweithrediad â phartneriaid, wedi buddsoddi mewn galluoedd gwell ac wedi cyflwyno deddfwriaeth newydd bwysig. Rydyn ni wedi lansio rhaglenni newydd i rwystro pobl rhag cael eu tynnu i mewn i Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol ac i'n gwneud yn fwy parod.

Mae'r Strategaeth yn cael effaith bositif ar lawr gwlad, ac mae'n rhan allweddol o ymrwymiad y Llywodraeth i gynnal diogelwch ac amddiffyn y cyhoedd.